



POLISI A CHYNLLUN GWEITHREDU YR IAITH GYMRAEG

Adolygwyd y Polisi Ddiwethaf: Ebrill 2024
Cymeradwywyd gan Y Bwrdd Ymddiriedolwyr: yn aros am
gymeradwyaeth y Bwrdd Mai 2024
Adolygiad Nesaf: Mai 2025
(neu ynghynt yn unol â deddfwriaeth wedi ei diweddaru)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Datganiad Polisi.....	2
Lefelau Cymraeg Presennol.....	3
Safonau Gwasanaeth	3
Deilliannau Sefydliadol	3

Cynyrchiadau a Pherfformiadau Hijinx	4
Delwedd a Brandio Corfforaethol	4
Cyfathrebiadau Marchnata	4
Cyfathrebiadau Ysgrifenedig	5
Cyfathrebiadau Ffôn	6
Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb	6
Technoleg Gwybodaeth	6
Safonau Gweithredu	6
Cyfathrebu Mewnol	6
Recriwtio a Staffio	6
Hyfforddiant a Chefnogaeth	6
Y Bwrdd Ymddiriedolwyr a Chyfarfodydd	7
Adolygu a Monitro	7
Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg	8-10

Cyflwyniad

Mae'r polisi a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn amlinellu ymrwymiad Hijinx i'r iaith Gymraeg; sut yr ydym yn bwriadu deall, datblygu a chryfhau ei hintegreiddio ar draws pob agwedd o'n gwaith; a sut y byddwn yn adolygu a monitro ein cynnydd.

Datganiad Polisi

Mae Hijinx yn ceisio bodloni hawl pobl sy'n byw yng Nghymru i gyfathrebu yn unrhyw un o ddwy iaith swyddogol Cymru, y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Hijinx wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal - fel y nodir yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn unol â Safonau'r Gymraeg dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 – a bydd yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod Polisi a Chynllun Gweithredu'r Gymraeg yn cael eu gweithredu a byddant yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am y gweithredu o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr.

Mae'r Polisi hwn yn esbonio sut y bydd Hijinx yn gweithredu'r safonau ac egwyddorion hyn pryd bynnag y bydd yn ymarferol a phriodol.

Bydd holl aelodau'r staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i weithredu'r polisi hwn a'i berthnasedd i'w maes gwaith.

Trwy weithio gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, bydd Hijinx yn gweithio i dderbyn y Cynnig Cymraeg a bydd yn parhau i adolygu a gwella ein darpariaeth a diweddarau ein cynllun gweithredu i gynyddu ein cefnogaeth i'r Gymraeg.

Lefelau Cymraeg Presennol

(Ar sail arolygon gwirfoddol Ebrill 2024)

Staff

- Mae gan Hijinx ddau aelod o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg
- Mae 40% o'r tîm staff yn nodi y gallant ddarllen brawddegau syml ar bynciau cyffredin a siarad 'ychydig o Gymraeg'
- Mae 8% yn dweud y gallant ysgrifennu, darllen a siarad 'eithaf tipyn o Gymraeg'

Ymddiriedolwyr

- Mae 25% o'r Bwrdd yn siarad Cymraeg
- Gall 10% siarad, darllen a deall 'brawddegau syml ar bynciau cyffredin'

Gweithwyr Llawrydd

- Mae 9% yn siarad Cymraeg yn rhugl / 12% y gallu siarad eithaf tipyn / 30% yn gallu siarad ychydig
- Mae o leiaf 25% yn gallu darllen 'brawddegau syml ar bynciau cyffredin o leiaf'
- Gall tua 18% ysgrifennu o leiaf 'eithaf tipyn o Gymraeg'

Actorion a chyfranogwyr Hijinx

Mae'r rhan fwyaf o artistiaid a'r rhai sy'n cymryd rhan sy'n dod at Hijinx yn dod trwy addysg cyfrwng Saesneg, gan fod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth addysg anghenion arbennig wedi cael ei ddarparu yn Saesneg yn hanesyddol.

Ein huchelgais yw gwella mynediad at yr iaith i'n hactorion a chyfranogwyr. Byddwn yn gweithio tuag at hyn gyda thiwtoriaid a hwyluswyr trwy gyflwyno geiriau ac ymadroddion wrth gynhesu grwpiau ac mewn sesiynau a cheisio creu partneriaethau creadigol i gefnogi hyn.

Safonau Gwasanaeth

Deilliannau Sefydliadol

- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg i gyrraedd cynulleidfaoedd a chyfranogwyr newydd, ac o fewn ein gweithgareddau
- Fel sefydliad dysgu byddwn yn parhau i gefnogi staff i ddysgu Cymraeg ac i weithio yn ddwyieithog
- Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o ddiwylliant ac iaith Cymru trwy gyfnewid rhyngwladol

Cynyrchiadau a Pherfformiadau Hijinx

Trwy ein gwaith creadigol, byddwn yn rhoi llwyfan i'r Gymraeg mewn sesiynau hyfforddi a pherfformiadau.

Cynyrchiadau

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid creadigol i greu cynyrchiadau dwyieithog neu ddi-eiriau a all berfformio ar draws y wlad.

Trwy Wyl Undod mae Hijinx wedi ymrwymo i arddangos Cymru i'r byd, i gynulleidfaoedd o gartref a thramor. A'r artistiaid yr ydym yn eu gwahodd i berfformio. Bydd y rhwydweithio a'r cysylltiadau fydd yn cael eu llunio trwy'r wyl, trwy greu, deialog a rhannu gwaith, yn parhau i gynyddu dealltwriaeth o iaith a diwylliant unigryw Cymru. Mae cynnwys y Gymraeg a pherfformiadau di-eiriau, yn cyfuno gyda marchnata dwyieithog a lleoli gweithgareddau mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhellach.

Hyfforddiant

Rydym wedi ymrwymo i gynnwys cynnwys Cymraeg wrth gyflwyno ein hyfforddiant, ar lefel sy'n addas i bob grŵp. I gefnogi hyn byddwn yn parhau i gynyddu ein gweithwyr llawrydd creadigol sy'n siarad Cymraeg.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Theatr Genedlaethol Cymru, i archwilio llwybrau i hyfforddiant a gyfaedd i'n hartistiaid anabl sy'n siarad Cymraeg.

Teithio

Mae teithio i Ewrop ac yn rhyngwladol yn agwedd allweddol o'n cynnyrch creadigol. Trwy ein cyfraniadau i'r wasg a'r cyfryngau, a'r rhyngweithio ar ein teithiau cyfnewid rhyngwladol, byddwn bob amser yn dweud ein stori 'Gwnaed yng Nghymru', gan gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gymru fel gwlad ddwyieithog.

Delwedd a Brandio Corfforaethol

Mae Hijinx wedi ymrwymo i gynnal ei ddelwedd gyhoeddus a'i hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys ei gyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, llofnodion ac unrhyw wybodaeth safonol arall fydd yn cael ei defnyddio. Bydd yr enw Hijinx yn cael ei ddefnyddio bob amser ac nid yw i gael ei gyfieithu. Bydd is-benawdau a ddefnyddir i ddynodi meysydd eraill o weithgareddau'r cwmni fel Gŵyl Undod Hijinx neu Academi Hijinx yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Bydd logos Cymraeg neu ddwyieithog yn cael eu defnyddio pan fydd hynny'n addas.

Cyfathrebiadau Marchnata

Marchnata

Ym mhob cyfathrebiad marchnata a gynhyrchir gan Hijinx yn ymwneud â'n cynyrchiadau a gwasanaethau ni ein hunain bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael statws cyfartal – bydd deunyddiau'n cael eu creu yn ddwyieithog, gyda'r ddau'n cael eu cyhoeddi yr un pryd, naill ai'n ddwyieithog, neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd amser digonol i gyfieithu yn cael ei ymgorffori yn yr holl linellau amser cynllunio.

Mae'r deunyddiau marchnata dan sylw yn cynnwys posteri, taflenni, rhaglenni, cylchlythyrau, arwyddion, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion.

Gall eithriadau i'r egwyddor hon ddigwydd pan anelir y deunydd at gynulleidfa sy'n byw y tu allan i Gymru.

Wrth weithio gyda chwmnïau sy'n bartneriaid rydym yn annog mabwysiadu ein Polisi Cymraeg a byddwn yn darparu canllawiau i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n gyson.

Y Cyfryngau Cymdeithasol a'r Wefan

Cyhoeddir yr holl ddeunydd marchnata a chyfathrebu digidol a gyfeiriwyd at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, gan gynnwys y wefan, e-daflenni a'r rhan fwyaf o'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae gwefan Hijinx yn hollol ddwyieithog ac yn dangos y dewis iaith yn glir, gan adael i ymwelwyr newid i'w dewis iaith. Bydd tudalennau'n cael eu diweddarau yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Mae tri math o gynnwys yr ydym yn ei gyhoeddi ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol:

1. **Cynnwys a gynhyrchir gan Hijinx** yn cael ei greu gennym ni ac i raddau helaeth neu yn gyfan gwbl yn ein geiriau ni ein hunain a gall gysylltu â chynnwys ar ein gwefan ein hunain neu wefan trydydd parti.
2. **Cynnwys a rennir o gyfrif trydydd parti** a all gysylltu at gynnwys ar wefan trydydd parti.
3. **Cyfraniadau at sgysiau neu edeifion** nad ydynt wedi eu dechrau gan Hijinx, ac a all symud yn gyflym neu sydd â phwyslais tymor byr

Bydd deunydd a gynhyrchwyd gan Hijinx yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg
Bydd deunydd a rennir yn cael ei gyhoeddi yn iaith y post gwreiddiol, fel y bydd cyfraniadau at sgysiau neu edeifion.

Y Wasg

Bydd pob datganiad i'r wasg a hysbysiadau i'r cyfryngau yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog – bydd amser digonol i gyfieithu yn cael ei ymgorffori yn yr holl linellau amser cynllunio.

Bydd Hijinx bob amser yn ceisio cael cynrychiolydd Cymraeg ei iaith ar gael i gynrychioli Hijinx ar y cyfryngau – o fewn terfynau ei wybodaeth neu brofiad.

Gwasanaethau Cyfieithu

Gwerthfawrogir bod cyfieithu yn sgil arbenigol, ac na fydd pawb sy'n siarad Cymraeg yn hyderus wrth gyfieithu testun i'w gyhoeddi. Felly, dylai dogfennau yn nodweddiadol gael eu cyfieithu gan gyfieithydd arbenigol. Bydd amser digonol i gyfieithu yn cael ei ymgorffori yn yr holl linellau amser cynllunio.

Ond, bydd cyfieithu mewnol gan aelodau o'r staff yn cael ei ddefnyddio ar gyfer deunydd 'syml', pan fydd hynny'n bosibl.

Cyfathrebiadau Ysgrifenedig

Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno cyfathrebu gyda Hijinx wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis. Bydd pob llythyr ac e-bost a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg. Pan na fydd gan Hijinx staff ar gael i ateb gohebiaeth yn Gymraeg i safon ddigonol, byddwn yn defnyddio cyfieithydd proffesiynol.

Bydd pob cyfarchiad cychwynnol a ffarwel yn bersonol, ar y ffôn neu mewn e-bost yn Gymraeg yn gyntaf a Saesneg yn ail.

Bydd llofnodion e-bost yr holl staff yn ddwyieithog, y Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg yn ail, ac yn cynnwys logo a geiriad sy'n briodol i'w lefel dysgwr/siaradwr Cymraeg ac yn nodi bod croeso i ohebiaeth yn y ddwy iaith.

Bydd negeseuon allan o'r swyddfa yn ddwyieithog, bydd staff yn cael eu cyfeirio at dempledi ar-lein i lunio negeseuon dwyieithog ar gyfer y diben hwn.

Cyfathrebiadau Ffôn

Mae Hijinx yn croesawu galwadau yn Gymraeg a Saesneg a bydd pob cyfarchiad cychwynnol ar y ffôn yn Gymraeg yn gyntaf a Saesneg yn ail. Os bydd y galwr yn dymuno parhau'r alwad yn Gymraeg ac nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, gofynnir i'r galwr a yw'n dymuno parhau yn Saesneg neu gael ei alw yn ôl yn Gymraeg yn nes ymlaen.

Bydd yr holl negeseuon llais ar ffôn y brif swyddfa yn cael eu recordio yn ddwyieithog.

Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb

Bydd yr holl staff yn derbyn lanyard a/neu fathodyn sy'n addas i lefel eu hiaith Gymraeg. Bydd unrhyw un sy'n dymuno cyfathrebu wyneb yn wyneb â Hijinx yn gallu gwneud hynny, gan ddibynnu a oes staff ar gael, byddwn yn annog a hyfforddi staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dysgu Cymraeg i wneud y mwyaf o'u sgiliau i gynnig gwasanaeth mor gynhwysfawr ag sy'n bosibl mewn tîm bychan.

Technoleg Gwybodaeth

Mae gan yr holl aelodau staff fynediad at liniaduron ac maent yn cael eu cyfeirio at adnoddau cyfieithu, gramadeg a thempledi ar-lein sydd ar gael.

Safonau Gweithredu

Cyfathrebu Mewnol

Bydd yr holl weithwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i gyfathrebu yn Gymraeg yn fewnol os byddant yn dymuno. Gall staff ofyn am gael eu contractau a'u disgrifiadau swydd yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae'r tîm staff ar y cyd yn monitro sianel Slack Cymraeg i helpu gydag ymholiadau Cymraeg syml – cwblheir cyfieithiadau mwy cymhleth gan gyfieithydd arbenigol.

Recriwtio a Staffio

Bydd yr holl hysbysebion swyddi yn cynnwys manylion sy'n nodi bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol neu ddymunol ar gyfer y swydd dan sylw.

Byddwn yn monitro sgiliau iaith y staff yn flynyddol i helpu i ddynodi anghenion hyfforddiant a datblygu, ac i sicrhau y bydd prosesau recriwtio yn y dyfodol yn gallu ymateb yn ôl hynny.

Hyfforddiant a Chefnogaeth

Rhoddir anogaeth i staff ddefnyddio'r gweithle fel cyfle i wella eu Cymraeg, a rhoddir cefnogaeth i unrhyw staff sy'n dymuno mynd i ddsbarthiadau.

Bydd Hijinx yn rhoi cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau i'r holl staff sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg, ac yn cefnogi staff i ddilyn hyfforddiant yn ystod oriau gwaith.

Bydd staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael hyfforddiant i ateb y ffôn yn ddwyieithog a sut i gyfeirio ymholiadau yn y Gymraeg.

Y Bwrdd Ymddiriedolwyr a Chyfarfodydd

Oni ofynnir yn wahanol mae agendau, cofnodion a dogfennau eraill ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig. Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn Saesneg fel arfer oni bai bod trefniant ymlaen llaw wedi ei wneud. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr, os gofynnir am hynny ymlaen llaw, y gellir darparu cyfieithu ar y pryd naill ai gan y siaradwr neu trwy aelod arall o'r cyfarfod sy'n siarad Cymraeg. Penderfyniad ymarferol yw hwn ar sail y gydnabyddiaeth gan aelodau, cyn belled â bod yr ysbryd dwyieithog yn cael ei werthfawrogi'n glir, nad yw'n angenrheidiol defnyddio cyfieithu ar y pryd proffesiynol costus.

Adolygu a Monitro

Bydd y polisi hwn a'i weithrediad yn cael eu hadolygu ar lefel y Bwrdd yn flynyddol.

Bydd Hijinx yn parhau i weithio trwy broses safon y Cynnig Cymraeg – dan arweiniad y Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, i lunio ein Cynllun Datblygu'r Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn atebol am gyflawni'r cynllun hwn trwy:

- Ei gyhoeddi ar ein gwefan

- Mesur ei effaith yn flynyddol

- Gwahodd cyngor ac arweiniad pan nad oes gennym yr adnoddau angenrheidiol

Cynllun Gweithredu'r Gymraeg

GWEITHRED	GAN BWY	ERBYN PRYD
SAFONAU GWASANAETH		
Pob cyfarchiad cychwynnol yn ddwyieithog - yn bersonol, ar y ffôn neu trwy e-bost (yn Gymraeg yn gyntaf / Saesneg yn ail)	Pawb	Parhau
Atebion i ohebiaeth ysgrifenedig yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan awdur y cyfathrebiad cyntaf	Pawb	Parhau
Holl lofnodion staff ar e-bost yn ddwyieithog (Cymraeg yn gyntaf / Saesneg yn ail) ac yn cynnwys logo / geiriad yn dangos lefel y dysgwr/siaradwr Cymraeg	Pawb	Parhau
Bydd pob cyfathrebiad cyhoeddus yn ddwyieithog, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg i'r wefan a deunyddiau marchnata	Marchnata	Parhau
Bydd holl gardiau busnes y staff yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg yn ail	Pawb	Parhau
Pan ofynnir am hynny, gwneir trefniadau i alwyr/ymwelwyr siarad â chydweithiwr sy'n siarad Cymraeg	Pawb	Parhau
SAFONAU GWEITHREDU		
Symud ymlaen trwy'r Cynnig Cymraeg a llunio Cynllun Datblygu'r Gymraeg	Marchnata / Prif Weithredwr	Mawrth 2025
CEFNOGI STAFF AC YMDDIRIEDOLWYR I DDYSGU'R GYMRAEG A GWEITHIO'N DDWYIEITHOG		

Recriwtio staff, ymddiriedolwyr, tiwtoriaid a hwyluswyr Cymraeg eu hiaith yn rhagweithiol	Pawb	Parhau
Cynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg ar fwrdd yr Ymddiriedolwyr i 25%	Y Bwrdd	Tachwedd 2024

Hijinx i roi cymhorthdal at gyrsiau i'r holl staff sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg, a chefnogi staff i ddilyn hyfforddiant yn ystod oriau gwaith	Pawb	Parhau
Yr holl staff yn derbyn lanyard a/neu fathodyn sy'n addas i lefel eu hiaith Gymraeg	Pawb	Parhau
Gall staff ofyn am gael eu contractau a'u disgrifiadau swydd yn Gymraeg neu Saesneg	Pawb	Parhau
Cynnal y sianel Slack ar gyfer parhau i ennyn ymlyniad y staff i bynciau yn ymwneud â'r Gymraeg a chwestiynau cyfieithu	Pawb	Parhau

CYNYDDU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG I GYRRAEDD CYNULLEIDFAOEDD A CHYFRANOGWYR NEWYDD YN EIN GWEITHGAREDDAU

Cynyddu'r nifer o Diwtoriaid a Hwyluswyr Cynorthwyol o ddau ar raglenni'r Academi a Pawb	Academi / PAWB	Mawrth 2025
Gŵyl Undod 2024 – o leiaf un cynhyrchiad Cymraeg i gael ei drefnu	Theatr	Gorffennaf 2024
Gŵyl Undod 2024 – o leiaf un darn theatr stryd dwyieithog neu ddi-eiriau newydd yn cael ei ddatblygu a'i berfformio yn Undod ac yn teithio i wylliau eraill	Theatr	Medi 2024
O leiaf 50 o artistiaid rhyngwladol i ymweld â Chymru ar gyfer Gŵyl Undod	Theatr	Gorffennaf 2024
Ymgysylltu ag awduron a chyfansoddwyr Cymraeg ac ymgorffori testun a geiriau Cymraeg yng nghynhyrchiad Odyssey	Pawb	Rhag 2025

CYNYDDU YMWHYBYDDIAETH O DDIWYLLIANT A IAITH CYMRU TRWY GYFNEWID RHYNGWLADOL

Cynhyrchiad Meet Fred yn Ne Corea gyda'r Sefydliad Wooran	Theatr	Hyd 2024
Cydweithio rhwng Hijinx a Tanzbar Breman i greu The Robots	Theatr	Medi 2024
MONITRO		
Archwilio lefelau sgiliau Cymraeg ein cronfa bresennol o diwtoriaid, hwyluswyr cynorthwyol a gweithwyr creadigol llawrydd	Academi / PAWB	Parhau
Gweithredu monitro cydraddoldeb i sgiliau Cymraeg yn holl randdeiliaid Hijinx, gan gynnwys actorion a chyfranogwyr	Pawb	Mawrth 2025
Cynhyrchu a chynnal cronfa ddata o ddewisiadau iaith cyfranogwyr a'u teuluoedd/gofalwyr/gweithwyr cymdeithasol	Academi / PAWB	Mawrth 2025
Monitro'r graddau y cedwir at/y gweithredir y cynllun gweithredu hwn, gan gyfeirio at gymorth pan fydd angen	Prif Weithredwr	Bob 6 mis
Cofnodi cwynion a dderbyniwyd yng nghyswllt cydymffurfio â safonau'r Gymraeg	Pawb	Parhau